

Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Chief Planner, Planning Directorate



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf/Our ref: qA1289931

At: Bob Pennaeth Cynllunio

18 Gorffennaf 2017

Annwyl Gyfeillion

Mae'r llythyr hwn yn trafod cyflwyno Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP) a sut y dylai'r system gynllunio fynd i'r afael â'r gofynion yng Nghymru.

Bydd yr ESMCP yn darparu system gyfathrebu y genhedlaeth nesaf ar gyfer y tri gwasanaeth brys (yr heddlu, tân ac achub, a'r gwasanaeth ambiwlans) a defnyddwyr eraill diogelwch y cyhoedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Cafodd y cwmni ffonau symudol EE y contract i ddarparu seilwaith y rhaglen gan y Swyddfa Gartref. Bydd y newid i ESNCP yn digwydd rhwng 2017 a 2020. Y rhan fwyaf o'r amser bydd EE yn defnyddio ei rwydwaith seilwaith presennol i gyflawni hyn. Fodd bynnag, mewn rhannau o Gymru, mae'r Swyddfa Gartref yn rhoi cyllid i adeiladu mastiau ble nad yw'n ymarferol i EE wneud hynny; gelwir y rhain yn Safleoedd Ardal Estynedig (EAS).


Mae angen cydbwysedd rhwng diogelu tirweddau pwysig a darparu'r seilwaith mwyaf effeithiol ar gyfer y rhwydwaith symudol. Mae rhannu mastiau a safleoedd yn cael ei annog yn gryf pan fo'r cynnig yr ateb amgylcheddol gorau mewn achos penodol. Er bod y polisi hwn yn berthnasol i bawb, mae'n arbennig o bwysig mewn perthynas ag ESMCP ble y darperir mastiau mewn ardaloedd diarffordd o Gymru. Yn yr achosion hyn dylid gallu addasu'r mastiau fel eu bod mor hyblyg â phosibl o ran eu defnyddio, a gellir sicrhau hyn drwy ddefnyddio rhwyd cryf yn hytrach na pholyn unigol. Er bod angen safleoedd mwy ar fastiau rhwyd o gymharu â pholion unigol, mae mwy o fanteision iddynt. Mae mastiau rhwyd yn golygu bod modd i nifer o gwmnïau symudol osod eu hoffer trosglwyddo ble nad yw'n ymarferol yn fasnachol i gwmni unigol godi mast, a gellir eu hehangu dros amser i gynnwys gofynion newydd. Mae'r Swyddfa Gartref wedi nodi eu bwriad i gyflwyno cynlluniau rhwyd ar eu Safleoedd Ardaloedd Estynedig ar gyfer yr ESMCP.

Mae'n hanfodol bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cymryd rhan yn y prosiect hwn pan ofynnir am eu mewnbwn, gan roi cyngor amserol ac adborth ar drafodaethau cyn y cais.

Pan fo angen penderfyniadau cynllunio, dylai Awdurdodau Cynllunio ystyried manteision y rhwydwaith gwasanaeth brys sy'n cael ei gynig gan y cynlluniau rhwyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol benderfynu ar geisiadau cynllunio am seilwaith symudol ar gyfer y gwasanaeth brys cyn gynted â phosib i sicrhau nad oes oedi di-angen wrth sefydlu'r rhwydwaith.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "N. Hemington". The signature is written in a cursive style and is positioned above a faint, light-colored rectangular stamp.

Neil Hemington

Prif Gynllunydd

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol